Hawdd ei Ddeall

Sefydliad Cymunedol Cymru

# Cronfa Waddol Gymunedol Powys

## Cyllid ar gyfer unigolion, sefydliadau cymunedol a gwirfoddol



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Sefydliad Cymunedol Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gronfa Waddol Gymunedol Powys**'.

**2024**

# Am y llyfryn yma

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond mae'n bosib bydd angen cymorth arnoch chi i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Sefydliad Cymunedol Cymru**. Am fwy o wybodaeth neu gefnogaeth cysylltwch â:




**Gwefan:** communityfoundationwales.org.uk/cy/



**Ebost:** grants@communityfoundationwales.org.uk



**Ffôn:** 02920 379580

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ **4**

**Nodau Cronfa Goffa Stanley Bligh** ........ **6**

**Cyn-Ysgol Ramadeg y Merched, Cronfa Aberhonddu** ........ **9**

**Cronfa Ymddiriedolaeth Ardal Maldwyn** ........ **12**

**Sut i wneud cais am yr arian yma** ........ **15**


**Cyllid am fwy na blwyddyn** ........ **17**

**Cyllid craidd** ........ **18**

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** ........ **19**

**Geiriau anodd** ........ **22**

# Cyflwyniad




Mae’r ddogfen yma am **Gronfa Waddol Gymunedol Powys**.



Mae’r gronfa yma yn cynnwys 3 cronfa ariannu wahanol:

- Cronfa Goffa Stanley Bligh
- Cyn-Ysgol Ramadeg y Merched, Cronfa Aberhonddu
- Cronfa Ymddiriedolaeth Ardal Maldwyn



Mae mwy o wybodaeth am bob cronfa ariannu yn y ddogfen yma. Mae’n cynnwys:

- Beth ydy nod y gronfa.




- Pwy sy’n gallu gwneud cais.



- Faint rydych chi’n gallu gwneud cais amdano.




- Sut i wneud cais.



Mae pob cronfa yn cefnogi gwahanol fathau o brosiectau mewn gwahanol feysydd.



Does dim angen i chi wneud cais i gronfa ariannu benodol. Fe fyddwn ni yn edrych ar eich cais ac yn penderfynu pa gronfa ariannu sy’n iawn ar gyfer beth rydych chi am ei wneud.

# Nodau Cronfa Goffa Stanley Bligh

Mae'r gronfa yma yn cefnogi addysg ac astudiaethau am:



- **Coedwigaeth** – rheoli coedwigoedd a choetir.



- **Amaethyddiaeth** – ffermio.



- **Pynciau technegol yn y celfyddydau neu'r gwyddorau** – fel peirianneg, technoleg, neu astudiaethau'r amgylchedd.



- **Hyfforddiant galwedigaethol yn y celfyddydau neu'r gwyddorau** – dysgu sgiliau swydd benodol.

## Faint rydych chi'n gallu gwneud cais amdano?



Mae grwpiau yn gallu cael hyd at 1 mil 500 o bunnoedd.

Yn y gorffennol mae'r gronfa yma  wedi talu am bethau fel:



- Ffioedd y cwrs.



- Prynu offer.



- Teithio.




- Costau rhedeg prosiect cymunedol.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais am Gronfa Goffa Stanley Bligh



- Sefydliadau cymunedol a gwirfoddol.



- Wedi'i leoli ym Mhowys.

Rydyn ni yn hoffi ceisiadau gan grwpiau sy'n gweithio gyda phobl sydd:



- Yn byw yn Sir Frycheiniog.




- Neu sydd wedi mynd i ysgol uwchradd yn Sir Frycheiniog am o leiaf 2 flynedd.

# Cyn-Ysgol Ramadeg y Merched, Cronfa Aberhonddu



Mae'r gronfa yma yn cefnogi pobl sy'n byw yn yr ardal oedd yn arfer cael ei galw'n Sir Frycheiniog.



Mae'r gronfa ar gyfer prosiectau addysg.

## Faint rydych chi'n gallu gwneud cais amdano?



Mae grwpiau yn gallu cael hyd at 1 mil 500 o bunnoedd.

Yn y gorffennol mae'r gronfa yma wedi talu am bethau fel:



- Ffioedd y cwrs.



- Prynu offer.



- Gwersi cerddoriaeth ac offerynnau cerdd.



- Teithio.



- Costau rhedeg prosiect cymunedol.

## Pwy sydd yn gallu gwneud cais am Cyn-Ysgol Ramadeg i Ferched, Cronfa Aberhonddu



- Unigolion, sefydliadau cymunedol a gwirfoddol.



- Wedi'i leoli yn Sir Frycheiniog.

# Cronfa Ymddiriedolaeth Ardal Maldwyn



Nod y gronfa yma ydy gwella bywyd i bobl sy’n byw yn Sir Drefaldwyn.



Fe fydd y gronfa’n cefnogi prosiectau sy’n darparu cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau hwyliog.

## Faint rydych chi’n gallu gwneud cais amdano?



Mae grwpiau yn gallu cael hyd at 1 mil 500 o bunnoedd.

Yn y gorffennol mae'r gronfa yma wedi talu am bethau fel:



- Prynu offer.



- Gwaith adeiladu bach – er enghraifft, adeiladu man chwarae.



- Addasu adeiladau, er enghraifft gosod rampiau cadair olwyn.

## Pwy sydd yn gallu gwneud cais am y Gronfa Ymddiriedolaeth Maldwyn



- Grwpiau cymunedol, mudiadau gwirfoddol, ac elusennau lleol.



- Wedi'i leoli yn Sir Drefaldwyn.

Yn y gorffennol mae'r gronfa yma wedi cefnogi:



- Grwpiau plant a phobl ifanc.
- Canolfannau cymunedol a neuaddau pentref.




- Grwpiau celfyddydol.



- Clybiau chwaraeon.
- Grwpiau chwarae a hamdden.

# Sut i wneud cais am yr arian yma



Mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen gais ar-lein. Mae hwn ar ein gwefan: [communityfoundationwales.org.uk/cy/grants/cronfa-gwaddol-cymuned-powys/](communityfoundationwales.org.uk/cy/grants/cronfa-gwaddol-cymuned-powys/)

**Pethau pwysig i'w gwybod:**



- Dydyn ni ddim yn gallu talu am unrhyw beth sydd wedi digwydd o'r blaen:



  - Rydyn ni yn anfon llythyr cynnig i chi.




  - Rydych chi'n anfon copi wedi'i lofnodi o'r telerau ac amodau i ni.



- Dydych chi ddim yn gallu defnyddio’r gronfa yma i gefnogi grwpiau ac elusennau eraill.




- Mae’n rhaid i chi wario’r holl arian o fewn 1 flwyddyn i dderbyn ein llythyr cynnig.



- Rhaid i chi ddangos yn glir yn eich cais pam mae angen yr arian yma.

# Cyllid am fwy na blwyddyn





Rydych chi'n  gallu gwneud cais am hyd at 3 blynedd o gyllid o'r gronfa yma. Rydyn ni'n ei alw'n **Gyllid Blwyddyn Lluosog**.



Rydych chi'n gallu parhau i ddefnyddio'r cyllid yma ar gyfer prosiectau 1 flwyddyn. Ac ar gyfer prynu eitemau bach a phethau rydych chi eu hangen sy'n bodloni nodau'r gronfa hon.



Os ydych chi eisiau cyllid am 3 blynedd, fe fydd angen i chi lenwi'r rhan ychwanegol o'r ffurflen gais.




Mae angen i chi ddweud sut rydych chi'n bwriadu tyfu eich prosiect dros y 3 blynedd.




Os na fyddwch chi yn derbyn cyllid 3 blynedd, efallai y byddwch chi yn dal i gael cyllid am flwyddyn.

# Cyllid craidd



Mae cyllid craidd yn talu costau rhedeg eich sefydliad. Rydych chi'n gallu ei wario ar bethau fel cyflogau staff a biliau.



Mae'n gallu bod yn anodd dod o hyd i gyllid craidd.

Mae grwpiau nawr yn gallu gwneud cais am gyllid tuag at eu costau craidd am hyd at dair blynedd. Cyn belled â:




- Rydych chi'n gallu darparu eich cyfrifon am y 12 mis diwethaf.



- Mae'r swm rydych chi yn gwneud cais amdano yn llai na hanner eich incwm blynyddol. Er enghraifft, os ydych chi am wneud cais am 1,000 o bunnoedd y flwyddyn, rhaid i'ch incwm fod o leiaf 2,000 o bunnoedd y flwyddyn.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015



Mae hon yn deddf am wella bywyd yng Nghymru i bobl nawr, ac yn y dyfodol.

Er mwyn cyflawni amcanion y ddeddf yma, mae'n rhaid i ni:



- Meddwl am sut mae ein penderfyniadau yn gallu effeithio ar bobl yn y dyfodol.



- Gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a sefydliadau eraill.



- Gweithio gyda'n gilydd i stopio problemau fel **tlodi**, **anghydraddoldeb iechyd** a **newid yn yr hinsawdd**.



**Tlodi** ydy pan nad oes gan rywun ddigon o arian i fyw arno.



Mae **anghydraddoldeb iechyd** yn meddwl nad ydy pobl bob amser yn cael cyfle cyfartal i gael iechyd da. Er enghraifft, efallai oherwydd lle maen nhw'n byw.



Mae **newid yn yr hinsawdd** yn meddwl bod y blaned yn mynd yn boethach. Mae hyn oherwydd pethau fel y tanwydd rydyn ni'n ei ddefnyddio sy'n niweidio'r blaned.



Rydyn ni eisiau i sefydliadau gydweithio’n well.



Rydyn ni eisiau i sefydliadau feddwl am sut mae eu gwaith yn cyd-fynd â gwaith arall sy’n digwydd.



Yn eich cais, meddyliwch am y pethau yma.



Esboniwch eich cynlluniau ar hyn o bryd a’r dyfodol. Rydyn ni eisiau gweld sut rydych chi’n bwriadu gweithio gydag eraill.

# Geiriau anodd

## Anghydraddoldeb iechyd

Mae anghydraddoldeb iechyd yn meddwl nad ydy pobl bob amser yn cael cyfle cyfartal i gael iechyd da. Er enghraifft, efallai oherwydd lle maen nhw'n byw.

## Newid yn yr hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn meddwl bod y blaned yn mynd yn boethach. Mae hyn oherwydd pethau fel y tanwydd rydyn ni'n ei ddefnyddio sy'n niweidio'r blaned.

## Tlodi

Tlodi ydy pan nad oes gan rywun ddigon o arian i fyw arno.